# Minutes

## Cabinet

Date: Dydd Mercher, 22 Mawrth 2023

Time: 4.00 pm

Present: Councillors J Mudd (Cadeirydd), D Batrouni, J Clarke, D Davies, Y Forsey, D Harvey, J Hughes, L Lacey and S Marshall

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Dim.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diweddaf**

Derbyniwyd Cofnodion 15 Chwefror fel cofnod cywir.

4 **TOMs (Themâu, Canlyniadau a Mesurau) Craidd Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer Mesur Gwerth Cymdeithasol mewn Contractau**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o 'Themâu, Canlyniadau a Mesurau' neu 'TOM's' ar weithgaredd caffael wrth brynu nwyddau a gwasanaethau, a fwriadwyd i gyflwyno 'gwerth cymdeithasol' i gymunedau a'r ddinas.

Yr oedd yr adroddiad yn gosod allan restr faith o'r mesurau craidd i'w defnyddio wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.

Yr oedd Cyngor Dinas Casnewydd yn cydnabod y gallai'r ffordd y mae'n rheoli gwariant gyda chyflenwyr, darparwyr gwasanaeth a chontractwyr wneud cryn wahaniaeth i flaenoriaethau o ran gwella lles cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol y ddinas trwy sicrhau gwerth ychwanegol yn y tymor hir a buddion cymdeithasol trwy wneud hyn.

Llwyddodd y TOMs i gael y gwerth cymdeithasol ychwanegol hwn trwy fframwaith fesur oedd yn caniatáu datgloi gwerth cymdeithasol trwy ei integreiddio i weithgaredd caffael. Datblygwyd y fethodoleg ar y cyd â Rhwydwaith Caffael Cenedlaethol CLILC a Thasglu Cenedlaethol Gwerth Cymdeithasol Cymru, gweithgor traws-sectorol sydd yn cyfuno mudiadau o'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

O restr o dros 90 o fesurau yn y fframwaith cenedlaethol, gweithiodd tîm caffael y Cyngor gyda swyddogion o bob adran o'r Cyngor i ddatblygu rhestr graidd o ryw 45 mesur, sef 'rhestr hir' y Cyngor hwn o fesurau i'w defnyddio yn lleol.

Byddai tendrau'r Cyngor am gontractau yn ymgorffori nifer llai o'r rhain (rhyw 2-5 yn bennaf) sydd yn addas i natur y gwasanaethau a'r nwyddau a gafaelir,  a bydd y rhain yn cael eu

‘sgorio’ ochr yn ochr â’r meini prawf eraill, pris ac ansawdd. Dangosir y rhain yn yr Atodiad i’r adroddiad.

Bydd angen defnyddio mesurau yng nghyswllt ‘ôl troed carbon’ ein cyflenwyr, a’i ostwng, fel diofyn. Trwy wneud hyn, mae neges glir yn cael ei roi i’n holl gyflenwyr a phartneriaid ein bod am gynnwys gwerth cymdeithasol a buddion allweddol eraill wrth wario’r bunt yng Nghasnewydd.

Yn ychwanegol at y mesurau penodol hyn, byddai ein tendrau yn dweud yn glir ein bod, fel Cyngor, yn annog ein cyflenwyr yn gryf i dalu i’w staff o leiaf y ‘cyflog byw go-iawn’, ac yr oedd gwybodaeth a gasglwyd trwy TOM’s ar berfformiad cyflenwyr yn hyn o beth yn ogystal â sicrhau eu ‘meini prawf gwaith teg’ yn gadarn, o ran sicrhau bod gweithwyr yn cael eu trin yn deg.

Gofynnwyd i’r Cabinet gymeradwyo Rhestr Graidd Cyngor Dinas Casnewydd o TOMs a gymeradwywyd ar gyfer mesur cyflwyno Gwerth Cymdeithasol trwy Gomisiynu, Caffael a Rheoli Contractau, ac adrodd yn gysylltiedig â hynny.

<u>Sylwadau Aelodau’r Cabinet:</u>

- Yr oedd y Cynghorydd D Davies yn croesawu’r adroddiad oedd yn sicrhau cyflwyno gwerthoedd cymdeithasol, yn hyrwyddo datblygu cadwyni cyflenwi lleol, ac yn ateb amcanion lles y Cyngor. Rhoddodd y  Dirprwy Arweinydd enghraifft o hyn ar waith wrth flaenoriaethu cadwyni cyflenwi lleol gyda phwyslais ar gyflogi gweithwyr lleol. Byddai hyn yn helpu’r Cyngor i gwrdd â’i amcanion niwtraledd  carbon yn y ddinas. Byddai hefyd yn cryfhau amcan allweddol un, o ran addysg a gwaith. Yr oedd mesur gwerth cymdeithasol mewn termau ariannol yn golygu bod modd gweithio allan gymhareb yr elw ar y buddsoddiad, a bod modd mesur canlyniadau mewn termau real a dealladwy.

- Cofiodd y Cynghorydd Hughes gymeradwyo yn wreiddiol y fframwaith cyffredinol a aeth i’r Cyngor yn gynnar yn early 2022 ac yr oedd yn falch gyda’r adroddiad a roddwyd gerbron y Cabinet, i gefnogi gwerth gofal cymdeithasol.  Yr oedd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol yn cefnogi’r thema gomisiynu a fyddai’n creu perthynas gryfach ac yn hyrwyddo gofal cymdeithasol a gwaith gyda mudiadau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol.  Yr oedd yr adroddiad yn canoli fwy ar gymuned nac ar arian, a chymunedau iachach a mwy diogel yng Nghasnewydd. Yr oedd yn erfyn fyddai’n cydnabod uchelgais y cyngor fel sbardun i’r economi a chaffael lleol, felly yr oedd y Cynghorydd Hughes yn cefnogi’r adroddiad.

- Croesawodd y Cynghorydd Forsey gyflwyno’r mesurau hyn. Nid oedd caffael yn ôl pris yn ystyried agweddau pwysig fel cefnogi pobl yn lleol. Yr oedd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth hefyd yn ystyried fod yr adroddiad yn cefnogi swyddi, cyfleoedd hyfforddi ac amodau gwaith da. Tynnodd y Cynghorydd Forsey sylw at fanteision amgylcheddol y mesurau hyn. Caffael oedd un o’r ffynonellau anoddaf i daclo nwyon tŷ gwydr; rhai o’r gweithgareddau gwerthfawr yn y cynllun oedd effeithlonrwydd adnoddau, arbedion CO2, rheoli ecosystemau cynaliadwy a gwarchod bywyd gwyllt brodorol a bioamrywiaeth.

- Yr oedd y Cynghorydd Batrouni eisiau pwysleisio sut yr oedd a wnelo’r adroddiad ag amcanion lles y cynllun corfforaethol, ac yr oedd hyn yn arddangosiad o ymrwymiad cryf y Cabinet. Atgoffodd yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol gydweithwyr o dri o’r amcanion: economi a sgiliau addysg, amgylchedd a seilwaith, a chyngor cynhwysol, teg a chynaliadwy. Yr oedd y Cynghorydd Batrouni felly yn cefnogi’r adroddiad.

<u>**Penderfyniad**</u>

Cymeradwyodd y Cabinet Restr Graidd CDC o TOMs a gymeradwywyd ar gyfer mesur Gwerth Cymdeithasol trwy Gomisiynu, Caffael a Rheoli Contractau a'r adrodd cysylltiedig.

5 **Diweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol (Chwarter 3)**

Cyflwynodd yr Arweinydd Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer diwedd Chwarter tri (1 Hydref tan 31 Rhagfyr 2022) i gydweithwyr.

Yr oedd Polisi Rheoli Risg a Chofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor yn galluogi'r weinyddiaeth hon a swyddogion i adnabod, rheoli a monitro'r risgiau hynny a allai atal y Cyngor rhag cyrraedd blaenoriaethau strategol a chynnal ei ddyletswyddau statudol fel awdurdod lleol.

Byddai'r adroddiad risg Chwarter tri yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio'r Cyngor yn nes ymlaen y mis hwn i adolygu prosesau a threfniadau llywodraethiant rheoli risg y Cyngor.

O ystyried yr heriau ariannol, y galwadau a'r pwysau cynyddol ar wasanaethau'r Cyngor, a'r argyfwng costau byw, nodwyd fod sawl risg wedi codi'r 'Sgôr Risg Targed', oedd yn golygu fod y Cyngor yn gorfod derbyn / goddef mwy o risg.

Nid oedd hon yn sefyllfa y byddai unrhyw weinyddiaeth Cyngor eisiau ei rheoli, ond byddai'r Cabinet a'r uwch-swyddogion yn sicrhau bod y rhain yn cael eu monitro'n agos, a lle bo hynny'n briodol, yn gweithredu.

Ar ddiwedd Chwarter tri, yr oedd gan Gyngor Casnewydd 47 risg wedi eu cofnodi ar draws unarddeg maes gwasanaeth y Cyngor.

Cafodd y risgiau hynny y tybiwyd oedd y rhai mwyaf i gyflwyno Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'u gwasanaethau eu codi i Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor i'w monitro.

Ar derfyn Chwarter tri, cofnodwyd 14 risg ar y Gofrestr Risg Corfforaethol.

- Saith Risg Ddifrifol (15 i 25).
- Saith Risg Fawr (7 i 14).

O gymharu â Chwarter dau, nid oedd unrhyw risgiau newydd a/neu waeth ac arhosodd 13 risg ar yr un sgôr a Chwarter dau.

Cafodd sgôr un risg, Clefyd Gwywo'r Ynn, ei ostwng o 16 i 12 am i'r Cyngor wneud gwaith sylweddol ar ei stoc o goed ledled y ddinas.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Tynnodd y Cynghorydd Davies sylw at y ffaith mai pwrpas y gofrestr risg oedd nodi risgiau lefel uwch a allai gael effaith ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor, ac fel Aelodau Cabinet, fod yn rhaid iddynt liniaru'r risgiau hyn a nodwyd yn eu portffolios. Fel Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar, yr oedd y Cynghorydd Davies yn ymwybodol o'r pwysau ariannol yr oedd ysgolion yn eu hwynebu. Yr oedd y Cynghorydd Davies eisiau tawelu meddyliau trigolion Casnewydd fod ysgolion yn gweithio'n galed i sicrhau fod cyngor a chefnogaeth broffesiynol ar gael i bob ysgol wrth gynllunio eu cyllidebau.

**<u>Penderfyniad</u>**

Ystyriodd y Cabinet gynnwys cyfoesiad Chwarter dau y Gofrestr Risg Corfforaethol.

6 **Adolygu Polisi: Adborth Cwsmeriaid - Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad nesaf, sef adolygiad polisi o'r Polisi Adborth Cwsmeriaid - Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion.

Pwrpas yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r polisi diwygiedig.

Y prif sbardun oedd symleiddio a mireinio'r polisi ac amlinellu sut yr oedd Cyngor Dinas Casnewydd yn gweinyddu adborth gan gwsmeriaid.

Y mae'r polisi yn dal yn berthnasol ac yn parhau i adlewyrchu'r gofynion statudol a deddfwriaethol diweddaraf.

Ceir adroddiad blynyddol hefyd ar gwynion, sylwadau a chanmoliaeth am berfformiad, ac yr oedd hyn ar y rhaglen waith yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Prif flaenoriaeth yr adolygiad oedd symleiddio a mireinio'r polisi ac amlinellu'n glir ar yr un pryd sut mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gweinyddu cwynion am Wasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Seiliwyd y polisi Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion ar y ddogfen enghreifftiol a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Safonau Cwynion. O ganlyniad i adolygiadau i'r polisi, bydd disgwyliadau trigolion yn cael eu rheoli o'r cychwyn a phroses gwynion glir yn cael ei dilyn.

Y mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus; mae'n annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth a chyhoeddodd bolisi enghreifftiol yn rhoi cyfarwyddyd ar sut i drin cwynion yn 2020. Cafodd eu hadborth ei ystyried yn y newidiadau i'r polisi.

Y mae'r polisi yn dal yn berthnasol ac yn parhau i adlewyrchu'r gofynion statudol a deddfwriaethol diweddaraf.

Fel cyngor sy'n gwrando, rydym yn rhoi gwerth ar gwynion, a bydd adborth yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Nid yw diffyg cwynion o raid yn arwydd o wasanaethau gwych, yn union fel nad yw cynnydd mewn cwynion yn golygu bod y gwasanaethau yn wael.

- Symleiddio a mireinio'r Polisi.
- Manylion am feini prawf gwrthod.
- Eglurder rhwng prosesau am gwynion Corfforaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Gostyngiad yn y cyfnod ar gyfer derbyn cwynion Corfforaethol o 12 mis i 6 mis.
- Cynnwys manylion am fonitro perfformiad.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Pwysleisiodd y Cynghorydd Batrouni fod yr ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus yn ysgrifennu at bob cyngor i wneud yn siŵr fod y system gwynion a chanmoliaeth yn gyson, a bod Cyngor Dinas Casnewydd yn cydymffurfiol, yn ôl y gofyn. Hefyd, nid yn unig yr oedd y Cyngor yn cadw at y gofynion hynny, ond yn anelu at ragoriaeth, oedd yn broses na fyddai fyth yn diweddu. Bydd y Cyngor yn parhau i ymdrin â chwsmeriaid, yn delio â phryderon trigolion ac yn dysgu o'u sylwadau, yn gwynion ac yn feirniadaeth.

- Ategodd y Cynghorydd Davies sylwadau'r Cynghorydd Batrouni a deall mai adolygiad oedd yr adroddiad o'r modd y mae cwynion yn cael eu rheoli. Proses yw hon i sicrhau ein bod yn gwrando ar y trigolion ac yn ymateb i'w pryderon. Yr oedd y Cynghorydd Davies hefyd yn croesawu'r ffaith fod y ddogfen yn hawdd i drigolion ei chyrchu a'i darllen.

- Soniodd y Cynghorydd Hughes fod y ffocws ar adborth negyddol, ond fod gofal cymdeithasol yn ddiweddar wedi cyflwyno adborth canmoliaethus i'w briffiadau, oedd yn gyfle i gydnabod gwaith gwych mewn gofal cymdeithasol. Yr wythnos hon, roedd preswylydd wedi anfon llythyr yn canmol aelod o staff y tîm ail-alluogi, ac at y dyfodol, byddai hyn yn helpu i gydnabod llwyddiannau a sylweddoli pwysigrwydd canmol yn ogystal â chwynion.

- Soniodd y Cynghorydd Marshall hefyd am adborth cadarnhaol am aelodau'r staff. Er ei bod yn bwysig dysgu o adborth am gwynion, yr oedd yn anodd dysgu o ganmoliaeth, a rhaid oedd i Aelodau'r Cabinet a staff dalu sylw a chanolbwyntio ar sylwadau cadarnhaol er mwyn bod yn hyderus i ddysgu a hyrwyddo'r staff , a datblygu'r math hwn o ddiwylliant.

- Yr oedd y Cynghorydd Clarke yn ystyried fod yr adroddiad yn gam cadarnhaol ac yn gychwyn proses. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai na fyddai hyn yn digwydd dros nos, a'i fod yn her gyson. Byddai pawb yn y cyngor yn cefnogi'r adroddiad a fyddai o les i drigolion Casnewydd.

Dywedodd yr Arweinydd fod pob adborth yn bwysig, a'n bod, fel cyngor sy'n gwrando, y tu ôl i hyn, ac am ei ddefnyddio fel cyfle i wella a rhannu arferion da.

**<u>Penderfyniad</u>**

Adolygodd y Cabinet a chymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r polisi.

7 **Diweddariad Pwysau Allanol NCC**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad nesaf, sef adolygiad polisi o'r Polisi Adborth Cwsmeriaid - Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion.

Pwrpas yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r polisi diwygiedig.

Y prif sbardun oedd symleiddio a mireinio'r polisi ac amlinellu sut yr oedd Cyngor Dinas Casnewydd yn gweinyddu adborth gan gwsmeriaid.

Y mae'r polisi yn dal yn berthnasol ac yn parhau i adlewyrchu'r gofynion statudol a deddfwriaethol diweddaraf.

Ceir adroddiad blynyddol hefyd ar gwynion, sylwadau a chanmoliaeth am berfformiad, ac yr oedd hyn ar y rhaglen waith yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Prif flaenoriaeth yr adolygiad oedd symleiddio a mireinio'r polisi ac amlinellu'n glir ar yr un pryd sut mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gweinyddu cwynion am Wasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Seiliwyd y polisi Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion ar y ddogfen enghreifftiol a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Safonau Cwynion. O ganlyniad i adolygiadau i'r polisi, bydd disgwyliadau trigolion yn cael eu rheoli o'r cychwyn a phroses gwynion glir yn cael ei dilyn.

Y mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus; mae'n annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth a chyhoeddodd bolisi enghreifftiol yn rhoi cyfarwyddyd ar sut i drin cwynion yn 2020. Cafodd eu hadborth ei ystyried yn y newidiadau i'r polisi.

Y mae'r polisi yn dal yn berthnasol ac yn parhau i adlewyrchu'r gofynion statudol a deddfwriaethol diweddaraf.

Fel cyngor sy'n gwrando, rydym yn rhoi gwerth ar gwynion, a bydd adborth yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Nid yw diffyg cwynion o raid yn arwydd o wasanaethau gwych, yn union fel nad yw cynnydd mewn cwynion yn golygu bod y gwasanaethau yn wael.

- Symleiddio a mireinio'r Polisi.
- Manylion am feini prawf gwrthod.
- Eglurder rhwng prosesau am gwynion Corfforaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Gostyngiad yn y cyfnod ar gyfer derbyn cwynion Corfforaethol o 12 mis i 6 mis.
- Cynnwys manylion am fonitro perfformiad.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Pwysleisiodd y Cynghorydd Batrouni fod yr ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus yn ysgrifennu at bob cyngor i wneud yn siŵr fod y system gwynion a chanmoliaeth yn gyson, a bod Cyngor Dinas Casnewydd yn cydymffurfiol, yn ôl y gofyn. Hefyd, nid yn unig yr oedd y Cyngor yn cadw at y gofynion hynny, ond yn anelu at ragoriaeth, oedd yn broses na fyddai fyth yn diweddu. Bydd y Cyngor yn parhau i ymdrin â chwsmeriaid, yn delio â phryderon trigolion ac yn dysgu o'u sylwadau, yn gwynion ac yn feirniadaeth.

- Ategodd y Cynghorydd Davies sylwadau'r Cynghorydd Batrouni a deall mai adolygiad oedd yr adroddiad o'r modd y mae cwynion yn cael eu rheoli. Proses yw hon i sicrhau ein bod yn gwrando ar y trigolion ac yn ymateb i'w pryderon. Yr oedd y Cynghorydd Davies hefyd yn croesawu'r ffaith fod y ddogfen yn hawdd i drigolion ei chyrchu a'i darllen.

- Soniodd y Cynghorydd Hughes fod y ffocws ar adborth negyddol, ond fod gofal cymdeithasol yn ddiweddar wedi cyflwyno adborth canmoliaethus i'w briffiadau, oedd yn gyfle i gydnabod gwaith gwych mewn gofal cymdeithasol. Yr wythnos hon, roedd preswylydd wedi anfon llythyr yn canmol aelod o staff y tîm ail-alluogi, ac at y dyfodol, byddai hyn yn helpu i gydnabod llwyddiannau a sylweddoli pwysigrwydd canmol yn ogystal â chwynion.

- Soniodd y Cynghorydd Marshall hefyd am adborth cadarnhaol am aelodau'r staff. Er ei bod yn bwysig dysgu o adborth am gwynion, yr oedd yn anodd dysgu o ganmoliaeth, a rhaid oedd i Aelodau'r Cabinet a staff dalu sylw a chanolbwyntio ar sylwadau cadarnhaol er mwyn bod yn hyderus i ddysgu a hyrwyddo'r staff , a datblygu'r math hwn o ddiwylliant.

- Yr oedd y Cynghorydd Clarke yn ystyried fod yr adroddiad yn gam cadarnhaol ac yn gychwyn proses. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai na fyddai hyn yn digwydd dros nos, a'i fod yn her gyson. Byddai pawb yn y cyngor yn cefnogi'r adroddiad a fyddai o les i drigolion Casnewydd.

Dywedodd yr Arweinydd fod pob adborth yn bwysig, a'n bod, fel cyngor sy'n gwrando, y tu ôl i hyn, ac am ei ddefnyddio fel cyfle i wella a rhannu arferion da.

**Penderfyniad**

Adolygodd y Cabinet a chymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r polisi.

8 **Dogfen Gryno Casnewydd yn Un**

Nododd y Cabinet y crynodeb o fusnes.

9 **Rhaglen Waith**

Hwn oedd yr adroddiad misol rheolaidd ar y rhaglen waith.

Derbyn y rhaglen a gyfoeswyd.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar y Rhaglen Waith.

The meeting terminated at Time Not Specified